# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mawrth, 20 Rhagfyr 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.G. Hopkins, G.O. Jones and G. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr
S. Rossiter, Cyfreithiwr Cynorthwyol
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgor 2 - 3 Heol Spilman - 10.00 - 10.15 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. I YSTYRIED APEL GAN YMGEISYDD MJL YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO A DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses gwneud penderfyniad, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, am fod angen diogelu hunaniaeth yr ymgeisydd a'i deulu/theulu.**

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer M.J.L gan nad yr ysgol honno oedd yr un agosaf nac ychwaith ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Ystyriodd y Panel sylwadau'r Swyddogion Adrannol a gofynnwyd am eglurhad ynghylch elfennau o Bolisi yr Awdurdod o ran Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch lleoliad yr ysgol ddynodedig/ysgol AALl agosaf i gyfeiriad cartref M.J.L.

**PENDERFYNWYD gwrthod yr apêl am nad oedd M.J.L yn mynychu'r ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, a hynny oherwydd dewis y rhieni.**

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**